# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 6 Ionawr 2025

Amser: 13.30 - 15.45

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14794

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Ruth Fox, Cymdeithas Hansard<br>Adam Tucker, Prifysgol Lerpwl |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Natasha Asghar AS.

## 2 Y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru): Sesiwn dystiolaeth ar drefniadau gweithdrefnol ar gyfer is-ddeddfwriaeth

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Ruth Fox o Gymdeithas Hansard a Dr Adam Tucker o Brifysgol Lerpwl, mewn perthynas â'r Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru).

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(6)558 – Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cofrestru Etholiadol heb Geisiadau) (Cynllun Peilot) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(6)554 – Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.2 SL(6)555 – Rheoliadau'r Amgylchedd Hanesyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.3 SL(6)556 – Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.4 SL(6)557 – Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.5 SL(6)564 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) (Diwygio) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.6 SL(6)565 – Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.7 SL(6)559 – Gorchymyn y Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.8 SL(6)562 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.9 SL(6)563 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 5.1 SL(6)550 – Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) (Estyn i'r Swistir a Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 5.2 SL(6)551 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 6.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd Grwpiau Rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor y llythyr a'r Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio mewn perthynas â chyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE.

### 6.2 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Dirymu) 2025

Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg.

### 6.3 Gohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) ac Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2025

Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru: Y Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus)

Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru.

### 7.2 Gohebiaeth at Garchar EF y Parc

Nododd y Pwyllgor yn ffurfiol y llythyr yr oedd wedi'i anfon at Garchar EF y Parc.

### 7.3 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni: Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar Ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni.

### 7.4 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Hawliau Rhentwyr

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai.

### 7.5 Gohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Ymgynghoriad Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau y DU.

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

### 7.6 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

### 7.7 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch: Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Awdurdodau Cymreig Datganoledig) (Diwygio) 2024

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch.

### 7.8 Gohebiaeth oddi wrth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru: Gwahoddiad i sesiwn graffu gyffredinol ar y cyd gyda Gweinidogion ar gyfiawnder troseddol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 9 Y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd gan Dr Ruth Fox a Dr Adam Tucker.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Rhentwyr: Trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Hawliau Rhentwyr a chytunodd i drafod drafft pellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 11 Cytundebau Rhyngwladol

Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio ar nifer o Gytundebau Rhyngwladol, cytunodd ar gamau gweithredu ar gyfer dau o'r Cytundebau, a chytunodd i drafod adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Nododd y Pwyllgor y Cytundeb Gwlad Letyol rhwng Sefydliad Coedwigoedd Ewrop a'r DU, a'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Nododd y Pwyllgor y Protocol i'r Cytundeb Interbus ynghylch cludo teithwyr yn rhyngwladol ar goetsys a bysiau, a chytunodd y Pwyllgor i hysbysu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith am y Cytundeb a'r ddeddfwriaeth i'w weithredu.

Nododd y Pwyllgor ddiwygiadau i'r Cytundeb sy'n sefydlu Cronfa Ddatblygu Affrica, a chytunodd i hysbysu'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol am y Cytundeb.

Nododd y Pwyllgor hefyd y Cytundebau a ganlyn:

- Cytundeb rhwng y DU a Mauritius ynghylch Ynysoedd Chagos;
- Pedwar Cytundeb terfynu unigol rhwng y DU a'r Weriniaeth Tsiec, Lithwania, Slofenia a Croatia ar Hybu a Diogelu Buddsoddiadau;
- Cytundebau Gwasanaethau Awyr (rhwng y DU a Gwlad Thai, y DU a Brasil, y DU a Mongolia, y DU a Moldofa, a'r DU a Tajikistan).

## 12 Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth y DU: Adolygiad o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r Adolygiad o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020, a chytunodd i ddarparu ymateb i'r adolygiad.